# Clerc y Cyngor

**Lleoliad**: Y Mwmbwls, Abertawe

**Cyflog:** £39,493 – £42,503 pro rata (gyda dyfarniad cyflog 2023 yn yr arfaeth)

**Oriau:** 30 awr yr wythnos, gwaith hybrid, gyda gofyniad i fod ar gael yn y swyddfa yng Nghanolfan Ostreme yng nghanol y Mwmbwls ar ddiwrnodau penodedig. Mae'n bwysig cael hyblygrwydd i gefnogi cyfarfodydd gyda'r nos ac ambell benwythnos i gefnogi digwyddiadau'r cyngor.

Mae **Cyngor Cymuned y Mwmbwls**, yn Ninas a Sir Abertawe, yn gyngor uchelgeisiol sydd â hanes gwych o ddwyn prosiectau cyffrous i ffrwyth. Mae'r parc sgrialu bellach wedi'i orffen, ac mewn partneriaeth â Chymdeithas Gymunedol y Mwmbwls, mae datblygiad Parc Underhill wedi hen ddechrau. Rydym hefyd yn trefnu llawer o ddigwyddiadau bywiog a phoblogaidd ar gyfer y gymuned leol o'n 'Canolfan Glyd' a'n 'Nosweithiau Cymunedol' wythnosol i ddiwrnodau hwyl i'r teulu, sioeau laser, a'n digwyddiad blaenllaw, 'Gŵyl y Mwmbwls', a welodd dros 3,500 o ymwelwyr y llynedd.

A oes gennych brofiad o arwain a chynghori cynrychiolwyr etholedig neu lywodraethwyr, fel clerc neu gynghorydd arbennig, a chefndir mewn amgylchedd proffesiynol, corfforaethol neu lywodraeth leol? Ydych chi am ddefnyddio'ch sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad i wneud gwahaniaeth i helpu i lunio cymuned ddiogel, fywiog a gweithgar?

Rydym yn chwilio am unigolyn ymroddedig gyda sgiliau llywodraethu, arwain a rhyngbersonol cryf i ddarparu arweinyddiaeth, arweiniad a chyngor i gynghorwyr Cyngor Cymuned y Mwmbwls, gan sicrhau bod holl brosiectau a busnes y cyngor yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus, o fewn y gyllideb ac ar amser, tra'n cynnal safonau uchel o lywodraethu cyhoeddus.

Byddwch yn arwain tîm bach o staff i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i aelodau'r cyhoedd ac i'r 18 cynghorydd wrth iddynt weithio i gael effaith yn y wardiau y maent yn eu cynrychioli ac i gyflawni'r amcanion a nodir yng nghynllun strategol y cyngor.

Byddwch yn gweithredu fel galluogwr, gan gefnogi a chynnal momentwm busnes y cyngor, tra'n sicrhau cymorth llywodraethu effeithiol sy'n ymwneud â'r defnydd o arian cyhoeddus ac adnoddau ac arsylwi prosesau democrataidd, gan gynnwys cydlynu effeithiol o'r holl brosesau a gynlluniwyd i gefnogi gweithrediad y cyngor a'i bwyllgorau.

Yn ddelfrydol, bydd gennych o leiaf tair blynedd o brofiad o weithio mewn rôl lywodraethu mewn lleoliad democrataidd, aelodaeth broffesiynol neu lywodraeth leol, a byddwch yn dod â phrofiad arwain ynghyd â'r gallu i greu amgylchedd gwaith cadarnhaol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Bydd eich ymddygiad yn rhagorol, gyda'r gallu i aros yn ddiduedd, cadw meddwl agored, cymhwyso barn gadarn, rhoi sylw da i fanylion, a defnyddio eich sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol i

ryngweithio â'r holl randdeiliaid gyda phwyll a sensitifrwydd. Yn ddelfrydol, byddwch yn dal neu, gyda'n cefnogaeth ni, yn gweithio tuag at achredu eich gwybodaeth a'ch cymhwysedd llywodraethu trwy gyflawni cymhwyster Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CILCA) yn llwyddiannus o fewn 12-18 mis i ddechrau'r swydd.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cwblhewch y ffurflen gais a'i dychwelyd i nicola@nsphr.com.

Dyddiad cau: Hanner nos, nos Fercher 5 Mai 2023

Cynhelir y cyfweliadau ddydd Mawrth 23 Mai 2023.